Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

# AMODAU GWAITH

**Noder mai canllaw ac amlinelliad bras o'r prif amodau gwaith yn unig yw'r nodiadau hyn. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn Datganiad Ysgrifenedig o'u Hamodau Gwaith unigol.**

## 1. TELERAU AC AMODAU

Rheolir y penodiad gan Gynllun Amodau Gwaith Cyngor Cenedlaethol Cyfun Gweithwyr y Llywodraeth Leol a fabwysiadwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (a elwir yn, ac y cyfeirir ato fel y "Llyfr Gwyrdd" ac sy’n cael ei atodi gan reolau a chofnodion, yr Awdurdod Tân, Dogfen Polisi Sefydliadol a Gweithdrefnau (DPSG) a chyfarwyddiadau eraill yn unol â diwygiadau ynghyd â deddfwriaeth cyfraith cyflogi arall a weithredir o bryd i'w gilydd.

## 2. GRADDFA GYFLOG

Cyflog y swydd hon yw 80,485 y flwyddyn. (ynghyd â'r dewis i rentu car ar brydles).

## 3. ORIAU GWAITH

Byddwch chi'n gweithio 37 awr mewn wythnos arfferol o Ddydd Llun i Ddydd Gwener. Lle caniatëir gweithio oriau hyblyg yn y gweithle bydd y cynllun yn cael ei roi i chi gan ffurfio rhan o'r cynllun amodau gwaith.

## 4. CYFNOD PRAWF

Bydd newydd-ddyfodiaid i Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru nad yw wedi trosglwydddo o Awdurdod arall 26 yn amodol i gyfnod prawf o 26 wythnos.

## 5. RHYBUDD I ADAEL

Mae'r cyfnod lleiaf o rybudd y mae gennych hawl iddo yn unol â Deddf Hawliau Cyflogi 1996, a'r cyfnod lleiaf o rybudd sy'n ofynnol i chi ei roi i derfynu eich cyflogaeth yw tri mis.

## 6. PENSIWN

Byddwch chi'n cyfrannu fel aelod o Gynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol oni byddwch yn dewis peidio â gwneud.

## 7. HAWL I ABSENOLDEB Â CHANIATÂD

Mae'r hawl gyfredol i gychwyn absenoldeb â chaniatad yn 35 diwrnod, ac eithrio gwyliau cyhoeddus cymeradwy'r Awdurdod.

## 8. MAE CYNIGION CYTUNDEBAU YN DDIBYNNOL AR Y FFACTORAU CANLYNOL

a) **Tystlythyrau**
Bydd unrhyw gynnig cyflogaeth yn amodol ar yr Awdurdod yn cael tystlythyrau boddhaol, naill ai cyn neu ar ôl cynnig cyflogaeth ar lafar.

b) **Meddygol**
Mae'r penodiad yn amodol ar archwiliad meddygol boddhaol.

c) **Cymwysterau**
Bydd y penodiad yn amodol ar gael tystiolaeth foddhaol o gymwysterau.